Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau

# Contractau Cyfleustodau

## Atodiad B: Crynodeb o weithgareddau cyfleustodau yn Neddf Caffael 2023

Rhagfyr 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50130, ISBN digidol 978-1-83715-134-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Canllawiau: Contractau Cyfleustodau

## Atodiad B: Crynodeb o weithgareddau cyfleustodau yn Neddf Caffael 2023

| Sector | Atodlen 4 Gweithgareddau cyfleustod | Atodlen 4 (Rhan 2) Gweithgareddau eithriedig neu Atodlen 2 Contractau esempt |
|---|---|---|
| Nwy a gwres | Atodlen 4, paragraff 1 – darparu neu weithredu rhwydwaith sefydlog ar gyfer darparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu nwy neu wres a chyflenwi nwy neu wres i rwydwaith o'r fath. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fusnesau rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu nwy a gwres sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. | Atodlen 4, paragraff 1(2) – Cyflenwadau nwy neu wres i rwydwaith nad ydynt yn weithgareddau cyfleustod<br><br>Atodlen 4, paragraff 11 – Cyfanwerthu neu fanwerthu nwy yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban<br><br>Atodlen 2, paragraff 33 – Contractau cyfleustodau i gyflenwi ynni neu danwydd i gynhyrchu ynni |
| Trydan | Atodlen 4, paragraff 2 – darparu neu weithredu rhwydwaith sefydlog ar gyfer darparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu trydan neu gyflenwi trydan i rwydwaith o'r fath. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fusnesau rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu trydan sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. | Atodlen 4, paragraff 2(2) – Cyflenwadau trydan i rwydwaith nad ydynt yn weithgareddau cyfleustod<br><br>Atodlen 4, paragraffau 8 a 9 – Cynhyrchu trydan yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.<br><br>Atodlen 4, paragraff 10 – Cyfanwerthu neu fanwerthu trydan yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban<br><br>Atodlen 2, paragraff 33 – Contractau cyfleustodau i gyflenwi ynni neu danwydd i gynhyrchu ynni |
| Dŵr | Atodlen 4, paragraff 3 – Darparu neu weithredu rhwydwaith sefydlog ar gyfer darparu gwasanaeth i'r cyhoedd mewn cysylltiad â chynhyrchu, cludo neu ddosbarthu dŵr yfed. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth a reoleiddir a chwmnïau dŵr a reoleiddir. | Atodlen 2, paragraff 32 – Contractau cyfleustodau i gyflenwi dŵr<br><br>Atodlen 2, paragraff 35 – Contractau consesiwn i gyflawni gwasanaethau dŵr penodol |

| Sector | Atodlen 4 Gweithgareddau cyfleustod | Atodlen 4 (Rhan 2) Gweithgareddau eithriedig neu Atodlen 2 Contractau esempt |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | Atodlen 4, paragraff 4 – Gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu neu weithredu rhwydweithiau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ym maes trafnidiaeth ar (i) rheilffordd; (ii) systemau awtomataidd; (iii) tramffordd; (iv) bws troli; (v) bws; neu (vi) cebl. | Atodlen 2, paragraff 21 – Rheilffyrdd a systemau metro a reoleiddir gan ddeddfwriaeth yr Adran Drafnidiaeth<br><br>Atodlen 2, paragraff 36 – Contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau hedfan<br><br>Atodlen 2, paragraff 37 – Contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus |
| Porthladdoedd a meysydd awyr | Atodlen 4, paragraff 5 – Gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu meysydd awyr i gludwyr teithwyr neu nwyddau mewn awyrennau neu borthladdoedd (a fyddai'n cynnwys porthladdoedd morol neu fewndirol) neu gyfleusterau terfynfa eraill i gludwyr ar y môr neu ddyfrffordd fewndirol. | |
| Olew a nwy | Atodlen 4, paragraff 6 – Echdynnu olew a nwy a chwilio am lo neu danwyddau solet eraill neu ei echdynnu/eu hechdynnu | Atodlen 4, paragraffau 12 a 13 – Chwilio am olew a nwy naturiol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban<br><br>Atodlen 4, paragraffau 14 a 15 – Cynhyrchu olew a nwy naturiol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban<br><br>Atodlen 4, paragraffau 16 a 17 – Datblygu seilwaith i gynhyrchu olew a nwy naturiol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban<br><br>Atodlen 2, paragraff 33 – Contractau cyfleustodau i gyflenwi ynni neu danwydd i gynhyrchu ynni |